**CFA15 Mentrau Iaith Cymru**

---

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol | Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Cymraeg i bawb? | Cymraeg for all?**

Ymateb gan: Mentrau Iaith Cymru | Evidence from: Mentrau Iaith Cymru

---

**1. Beth yw'r prif rwystrau sy'n atal defnydd ehangach o'r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg, a beth allai helpu i newid hyn?**

**Rhwystr:** Mae'r cyfleoedd sydd ar gael i hamddena drwy gyfrwng y Gymraeg yn dameidiog. Ystyriwch y gwasanaethau cyhoeddus sydd ar gael o gyllidebau Awdurdodau Lleol; gwasanaethau plant, ieuenctid, gwasanaethau cefnogaeth i deuluoedd, gofal ar ôl ysgol ac yn y gwyliau, rhaglenni adfywio cymunedol, chwaraeon a hamdden, rhaglenni diwylliannol a thwristaidd. Mae'r ddarpariaeth yn Saesneg yn ddiofyn ac mae'n rhaid i unigolion fynd i chwilio am bocedi o ddarpariaeth Gymraeg os ydyn nhw am ddefnyddio'u Cymraeg.

**Camau datrys:** Mae angen sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn clustnodi cyllideb deg ar gyfer darpariaeth Gymraeg ym mhob elfen o'u gwasanaethau sy'n creu cyfleoedd i hamddena (gw. uchod). Os nad oes ganddynt weithlu i ddarparu hyn, dylent ariannu cyrff trydydd sector i wneud ar eu rhan. Gallai Strategaethau Hybu Awdurdodau lleol fod yn arf i gryfhau darpariaeth y cyrff cyhoeddus os oedd iddynt statws, atebolrwydd a goruchwyliaeth addas, a'u bod yn gyrru gwariant. Petai'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn mabwysiadu'r Stratgeaethau hybu yma ac yn clustnodi cyllideb i'w gweithredu, byddai'n gwneud gwahaniaeth enfawr. Ni fyddai'n rhaid i'r cyllid yma fod yn newydd, ond gallai fod yn ddyraniad teg o'r gyllideb gyffredinol.

**Rhwystr:** Does dim llawer o ddefnydd o'r Gymraeg mewn clybiau chwaraeon. Mae gymaint o blant a phobl ifanc yn mynychu clybiau chwaraeon o bob math a dydy'r clybiau hynny, ar y cyfan, ddim hyd yn oed yn gwybod pa blant sy'n gallu siarad Cymraeg o fewn y clwb. Mae'r holl hyfforddi a chymdeithasu'n digwydd yn Saesneg.

**Camau Datrys posibl**: Ymrwymiad y Cyngor Chwaraeon i wella'r sefyllfa; ariannu prosiectau cydweithio, cynnig cymhelliad (Incentive) i sefydlu hyfforddiant Cymraeg, Anogaeth i hyrwyddo defnydd o fewn clybiau. Dysgu o arferion da (fel clwb pêl droed Cymric Caerdydd, a chyllido'r Mentrau Iaith i gynorthwyo clybiau cymunedol a chystadleuol i gynyddu eu gweithgarwch cyfrwng Cymraeg.

**Rhwystr:** Mae holl ddarpariaeth hamddena'r sector preifat - siopa, bwyta allan, campfeydd ayb i gyd yn defnyddio Saesneg fel iaith di-ofyn y profiadau yma.

**Camau Datrys:** Heb ddeddf iaith sy'n eu gorfodi i ddefnyddio'r Gymraeg, mae angen buddsoddi mewn ymgyrchoedd a rhaglenni penodol i ddwyn perswâd a chydweithio gyda nhw i annog defnydd y Gymraeg yn eu gofodau. Mae modd i gyrff fel y Mentrau Iaith weithredu drwy gydweithio gyda busnesau allweddol, ond mae angen adnoddau ar Fentrau i wneud y gwaith yma. Dylid sicrhau bod grantiau datblygu i fusnesau sy'n creu gweithgarwch cymdeithasol gydag amodau ar annog defnydd y Gymraeg ynghlwm wrthynt. Yn ogystal, dylid sicrhau bod prosesau caffael ar gyfer darpariaethau o'r fath yn gofyn am ymrwymiad ystyrlon i annog defnydd y Gymraeg.

Mae gweithleoedd hefyd yn yr ardaloedd yma'n defnyddio'r Saesneg yn ddiofyn, a phrin iawn yw'r gweithleoedd o fewn pob sector sy'n annog datblygiad a defnydd sgiliau Cymraeg y gweithlu. Mae angen mwy o orfodaeth ar weithleoedd cyhoeddus a phreifat i annog defnydd y Gymraeg yn y gwaith.

**Rhwystr:** Mae diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar ôl gadael ysgolion Cymraeg yn her fawr. Mae pobl ifanc yn colli eu sgiliau Cymraeg yn gyflym os nad ydynt yn digwydd cael gwaith lle mae angen iddynt ddefnyddio'u Cymraeg.

**Camau datrys posib:** isod.

**2. Pa fath o ofodau a chyfleoedd a allai annog mwy o ddefnydd o'r iaith, a chynyddu hyder o ran ei defnyddio, mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith o ddydd i ddydd yn gyfyngedig?**

- Ymestyn Clybiau ar ôl ysgol a gwyliau, mewn ysgolion Cymraeg i annog defnydd y Gymraeg y tu hwn i sefyllfa addysgol i bob ysgol Gymraeg
- Gwyliau diwylliannol Cymraeg ym mhob sir i greu gofodau Cymraeg dros dro yn y trefi gan gynnwys y bwrlwm sydd wrth baratoi gwyliau o'r fath
- Rhaglenni arbrofol ac uchelgeisiol i rymuso grwpiau o bobl ifanc i greu gweithgarwch cymdeithasol Cymraeg yn eu cymunedau wedi gadael ysgolion Cymraeg
- Profiad gwaith deniadol cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc wrth gyflawni elfennau gwirfoddol BAC
- Gwaith achlysurol, gwyliau i bobl ifanc mewn gweithleoedd sy'n ofodau Cymraeg – mentrau iaith, clybiau gwyliau, canolfannau Cymraeg ayb
- Prosiectau cyfoes i fagu diddordeb pobl ifanc yn eu diwylliant a'u hiaith – dawnsio a cherddoriaeth gwerin
- Canolfannau diwylliannol, cymunedol, Cymraeg
- Rhaglenni magu hyder a defnydd mewn gweithleoedd sy'n annog defnydd y Gymraeg yn y gwaith ac yn cysylltu unigolion gyda chyfleoedd cymdeithasol, Cymraeg i atgyfnerthu eu sgiliau
- Mwy o gyllid a chefnogaeth craidd a phrosiect i Fentrau Iaith i fedru darparu'r hyn sydd ei angen o ran cyfleoedd cymdeithasol Cymraeg yn eu cymunedau, o gylch yr ysgol, ac i gydweithio a dylanwadu ar gyrff eraill sy'n darparu

- Mwy o gefnogaeth i ddarpariaeth gymunedol traddodiadol fel aelwydydd yr Urdd, corau Cymraeg, capeli, papurau bro i ymestyn at gynulleidfaoedd ifanc a ffynnu i'r dyfodol
- Mae potensial i'r cyrff a'r digwyddiadau canlynol hefyd wneud llawer i annog mwy o ddefnydd cymdeithasol:
- Canolfannau Hamdden,
- Park Runs
- Clybiau Nofio
- Gyrfa Cymru
- Archfarchnadoedd, siopau a thafarndai
- Rhaglenni celfyddydol mewn adeiladau cyhoeddus (theatrau, llyfrgelloedd ayb)

**3. A allwch chi rannu enghreifftiau o fentrau neu weithgareddau llwyddiannus sydd wedi annog defnydd o'r Gymraeg mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith yn gyfyngedig?**

- Clybiau ar ôl ysgol Menter Iaith Caerffili
- Gwaith datblygu bandiau ifanc Menter Caerdydd, Conwy, Gwendraeth Elli ac eraill
- Gwyliau diwylliannol Cymraeg: e.e. Gŵyl Tawe, Ogi ogi Ogwr, Tafwyl, Ffiilffest, Parti Ponti
- Clybiau Chwaraeon Cymraeg i blant, e.e. yr Urdd neu mewn partneriaeth gyda chlybiau Chwaraeon
- Gwaith codi ymwybyddiaeth a pherchnogaeth leol o'r Eisteddfod, e.e yn Rhondda Cynon Taf
- Darpariaeth gwaith ieuenctid (universal) yn ysgolion Uwchradd Gymraeg Caerdydd (partneriaeth yr Awdurdod Lleol, yr Urdd a'r Fenter Iaith),
- Canolfan diwylliannol Soar yn Merthyr a Tŷ Tawe er enghraifft, yn ofod saff i ddefnyddio'r Gymraeg yn ddiofyn
- Twmpdaith (Menter Maldwyn)
- Coffi a chlonc gan y Mentrau yn mhob man
- Gweithdai murluniau mewn clybiau ieuenctid Saesneg
- Gweithdai neu glybiau i oedolion: yoga, coginio, celf, teithiau cerdded
- Corau
- Gigs a holl waith datblygu bandiau ifanc (e.e. Menter Caerdydd)
- Sesiynau i rieni a phlant mewn llyfrgelloedd (e.e. Magi Ann, Symud gyda Tedi)

**4. Pa fath o ofodau a chyfleoedd a allai annog mwy o ddefnydd o'r iaith, a chynyddu hyder ynddi, mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith o ddydd i ddydd yn gyfyngedig??**

- Y Gymraeg yn ddi-ofyn ar beiriannau meysydd parcio, tiliau, cyfrifiaduron ayb.
- Mwy o apiau / profiadau Cymraeg ac addysgu am beth sydd ar gael

- Mwy o ddylanwadwyr sy’n modelu defnydd o’r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol
- Mwy o bobl ar lawr gwlad yn siarad gyda rhieni a dangos iddyn nhw sut i ddefnyddio adnoddau Cymraeg
- Cyfleoedd i oedolion ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau digidol yn Gymraeg (codio, gemau fideo, podcasts

**5. Pa effaith, yn eich barn chi, y mae digwyddiadau diwylliannol fel Eisteddfodau cenedlaethol neu wyliau Cymraeg yn ei chael ar y defnydd o’r Gymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â llai o siaradwyr Cymraeg?**

Mae dyfodiad Eisteddfod i ardaloedd lle mae dwysedd is o siaradwyr Cymraeg yn hanfodol i hyfywedd y Gymraeg. Mae’n gyfle i siarad Cymraeg fod yn norm i’r lleiafrif yn yr ardal, am gyfnod byr. Mae’n hollbwysig fod siaradwyr iaith leiafrifol yn cael y profiad hwn, sy’n rhoi cyd-destun ehangach i’w hiaith a’u diwylliant, yn ei gwneud i deimlo’n llais ynysedig ac yn gwneud yr iaith yn berthnasol ac yn hwyl yn eu hardal nhw. I’r rhai sydd ddim yn medru’r Gymraeg, mae’ ffenestr i ddiwylliant ac iaith sydd yn perthyn iddyn nhw, ac yn gyfle iddyn nhw ennyn diddordeb ac awydd i ymwneud yn fwy gyda’r Gymraeg, i ddatblygu eu sgiliau ac i ddod yn fwy rhugl. Mae gweld yr effaith gadarnhaol y mae dyfodiad yr eisteddfod yn ei wneud i fusnesau’r ardal yn rhoi gwedd a statws newydd i’r Gymraeg sy’n cael ei weld fel rhywbeth sy’n creu cynnydd economaidd. Yn bennaf oll, mae’n atgyfnerthu defnydd plant, pobl ifanc a theuluoedd o’r Gymraeg, a’r profiad o gael eisteddfod yn eu hardal yn aros gyda nhw am byth. Ond, mae’r gwaith y Mentrau Iaith, y gwirfoddolwyr, cyrff y trydydd sector a’r Awdurdodau lleol yn ei wneud yn arwain at ddyfodiad yr Eisteddfod genedlaethol a’r Urdd bron yr un mor bwysig â’r Eisteddfod ei hun, ac mae angen sicrhau bod adnoddau a chefnogaeth digonol o fewn yr ardal am flwyddyn cyn ac ar ôl yr eisteddfod er mwyn uchafu eu budd, sicrhau cynhwysiant a pherchnogaeth mor eang â phosib iddi. Os na wneir hyn, ceir teimlad o Eisteddfod yn glanio ac yna’n gadael ac, mewn ardal dwysedd is, gall hyn atgyfnerthu pegynnu siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg gan roi profiad amherthnasol a hyn yn oed creu anghyfleustra i bobl leol.

Wedi sôn eisoes am bwysigrwydd gwyliau i’r Gymraeg yn yr ardaloedd lle mae canran siaradwyr Cymraeg yn is, nid oes modd gor-ddweud eu pwysigrwydd a’u heffaith cadarnhaol. Mae’r effaith yn debyg i’r hyn a enwyd uchod o ran eisteddfodau, ond yn hyd yn oed yn fwy pwysig am eu bod yn deillio ac yn digwydd o fewn cymunedau. Maent yn tynnu pobl ynghyd i greu digwyddiad, yn creu gofod Gymraeg dros dro ar gyfnod yr ŵyl ond yn creu gweithgarwch a hwyl yn Gymraeg yn yr ysgolion ac yn y gymuned cyn y digwyddiad. Mae gan Gymru wyliau gwych, ac mae’n rhaid i rywun ganfod ffordd o’u cyllido’n addas. Mae’r Mentrau Iaith sy’n cydlynu’r gwyliau yn ymdrechu’n ddiflino i ganfod cyllid yn flynyddol, ac yn awyddus dros ben i gadw’r gwyliau yn rhad ac am ddim er mwyn iddynt fod yn ddigwyddiadau torfol, cynhwysol sy'n dangos i’r gymuned bod y Gymraeg yn perthyn i bawb, a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

**6. Sut y gellid addasu neu wella'r digwyddiadau hyn (boed yn rhai mawr neu fach o ran maint) i wasanaethu cymunedau â llai o siaradwyr Cymraeg yn well?**

- cyllid penodol i Fentrau Iaith i gynnal a hyrwyddo'r gwyliau'n flynyddol
- cynyddu cyllideb craidd Mentrau iaith i sicrhau adnoddau dynol addas i gydlynu gwyliau'n flynyddol, ac i sicrhau eu perchnogaeth a'u heffaith yn lleol
- adnoddau digonol a chefnogaeth digonol i wirfoddolwyr i greu'r holl fwrlwm sy'n arwain ar eisteddfod neu ŵyl
- adnoddau digonol i gefnogi seilwaith lleol – stondinwyr sy'n gweithredu'n ddwyieithog
- rhaglenni arbrofol ac uchelgeisiol i dynnu cynulleidfaoedd anodd eu cyrraedd i mewn i fwrlwm y digwyddiadau
- ymgyrch farchnata i'w hyrwyddo mor eang a phosib
- swyddogion teithiol o bosibl sy'n gweithio rhwng yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Mentrau Iaith, yn cydlynu ymwneud y gymuned â'r Eisteddfod am flwyddyn o flaen llaw
- adnodd i fesur effaith gwyliau ar ddefnydd y Gymraeg

**7. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech dynnu sylw'r Pwyllgor atynt mewn perthynas â dull Llywodraeth Cymru o gefnogi'r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg?**

<u>Grantiau</u>

Angen dewis un ardal benodol, lle mae canran is o siaradwyr Cymraeg, a gwneud astudiaeth i weld ydy gwariant cronfa Leveling Up, ar weithgareddau gydag elfen gymdeithasol iddynt, wedi cael effaith gadarnhaol ar ddefnydd y Gymraeg. Dylid defnyddio canfyddiadau'r astudiaeth i argymell amodau cryfach o fewn cronfeydd ariannol a weinyddir gan y sector cyhoeddus, fel bod elfen deg o wariant grantiau sy'n ariannu gweithgarwch cymunedol yn cael ei glustnodi i weithgarwch cyfrwng Cymraeg.

Byddai'n hynod o ddefnyddiol gwneud astudiaeth debyg o wariant y Cyngor Chwaraeon yn yr un modd.

<u>Caffael</u>

Mae angen tynhau a chryfhau atebolrwydd o ran darparu gweithgareddau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog o fewn prosesau caffael y sector cyhoeddus ar gyfer unrhyw wasanaeth sydd ag elfennau o ymwneud rhyngbersonol/gweithgaredd gymunedol.